



16 Ionawr 2019

Annwyl Gyfaill,

**Rheoliadau Materion Gwledig a'r Amgylchedd (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol)  
(Cymru) 2019 (Rheoliadau 2019)**

Rydym yn rhoi gwybod ichi am ddiwygiadau sy'n cael eu cynnig i ddeddfwriaeth Gymreig er mwyn ichi gael cyfle i gynnig sylwadau. Newidiadau mân iawn ydynt, i gywiro cyfeiriadau yn y gyfraith sydd bellach yn hen. Nid yw'r diwygiadau'n newid y polisi ei hun na'r modd y caiff ei roi ar waith, ac ni fyddant yn effeithio ar unrhyw un yng Nghymru mewn unrhyw ffordd ymarferol. Er hynny, mae'n rhaid gwneud y newidiadau er mwyn cadw'r gyfraith yn gyfoes.

Mae'r holl newidiadau'n ymwneud ag ymgorffori diwygiadau i Gyfarwyddbau a Rheoliadau Ewropeaidd, neu ddeddfwriaeth sy'n cymryd eu lle, cyn bod y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn bwysig gan fod angen inni wneud newidiadau pellach i ddarnau eraill o'r gyfraith o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd er mwyn i'r gyfraith honno allu gweithio ar ôl i'r DU adael. Rydyn ni'n manteisio ar y cyfle hefyd i gywiro nifer bach o faterion eraill lle bo cyfeiriad at gyfraith yr UE wedi newid. Disgrifir y newidiadau hyn yn fanwl isod.

Caiff diwygiadau eu gwneud i'r Offerynnau Statudol canlynol:

- Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007
- Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) a Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) (Cymru) 2008
- Rheoliad Rheolau Bwyd a Phorthiant Swyddogol (Cymru) 2009
- Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009;
- Rheoliadau Llaeth Yfed (Cymru) 2010
- Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010
- Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011
- Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013
- Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017.

## Disgrifiad o'r diwygiadau

Mewn perthynas â:

- **Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cyflawni a gorfodi Rheoliad (EC) rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol a gynhelir i sicrhau y dilysir cydymffurfedd â chyfraith porthiant a bwyd, iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid.

Yn rheoliad 2(1), mae'r cyfeiriad yn y diffiniad o'r hyn sydd 'wedi'i fewnforio o drydedd wlad' bellach yn hen ac mae angen ei newid i gynnwys y cyfeiriad cywir yn "erthygl 27 ac Atodiad V Rheoliad 882/2004 (3) mewn cysylltiad â'r gwiriadau a nodir yn rheoliad 15 (1) (a) o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011"

- **Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) a Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) (Cymru) 2008**

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cyflawni a gorfodi yng Nghymru Reoliad (UE) 2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu trefniadaeth gyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynnyrch amaethyddol. Mae'r diwygiad drafft hwn yn cywiro camgymeriad yn y cyfeiriad at Reoliad 2013 sy'n ymddangos yn rheoliad 2(1).

- **Rheoliad Rheolaethau Bwyd a Phorthiant Swyddogol (Cymru) 2009**

Mae Rheoliad Rheolau Bwyd a Phorthiant Swyddogol (Cymru) 2009 yn darparu ar gyfer cyflawni a gorfodi Rheoliad (EC) rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gynhelir i sicrhau y dilysir cydymffurfedd â chyfraith porthiant a bwyd, iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid.

Gwneir y diwygiad drafft i ddiweddarau'r cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr UE sy'n ymwneud â'r rheolau ynghylch cynlluniau ansawdd sy'n rhoi'r sylfaen ar gyfer adnabod a diogelu enwau a thermau sy'n dynodi neu'n disgrifio cynnyrch amaethyddol sydd â nodweddion sy'n ychwanegu at eu gwerth.

Cafodd y gofynion UE hyn eu gosod allan cyn hynny yn Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 509/2006 ar gynnyrch neu borthiant amaethyddol sy'n rhai traddodiadol gwarantiedig arbenigol ac yn Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 510/2006 ynghylch diogelu enwau tarddiad a dynodiadau daearyddol cynnyrch neu fwyd amaethyddol penodol. Cynhwysir y darpariaethau hyn bellach yn Rheoliad (UE) 1151/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Tachwedd 2012 ar gynlluniau ansawdd ar gyfer cynnyrch a bwyd amaethyddol. Mae paragraffau (a) (iii) a (iv) Atodlen 3 o Reoliadau Porthiant a Bwyd Swyddogol (Cymru) 2009 wedi'u newid er mwyn cyfeirio at Reoliad 2012 yr UE.

- **Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009**

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi fframwaith statudol ar gyfer gorfodi rheolau marchnata yn y sector ffrwythau a llysiau.

Mae'r diwygiad a gynigir yn rheoliad 2(2) yn cywiro cyfeiriad statudol at Reoliad Ewropeaidd (UE) rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu trefnidaeth gyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynnyrch amaethyddol.

- **Rheoliadau Llaeth Yfed (Cymru) 2010**

Mae Rheoliadau Llaeth Yfed (Cymru) 2010 yn darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad (UE) 2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu trefnidaeth gyffredin ar gyfer marchnadoedd mewn cynnyrch amaethyddol. Mae'r diwygiad drafft hwn yn cywiro camgymeriad yn y cyfeiriad at Reoliad 2013 sy'n ymddangos yn rheoliad 2(1).

- **Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010**

Mae Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2009 (O.S. 2009/793) yn darparu ar gyfer

1. gorfodi a chynnal safonau marchnata'r UE y gellir eu cymhwyso'n uniongyrchol ynghylch wyau deor a chywion dofednod fferm;
2. gorfodi a chynnal safonau marchnata'r UE y gellir eu cymhwyso'n uniongyrchol ynghylch wyau bwyta yn eu masgal; a
3. gorfodi rheolaethau'r UE y gellir eu cymhwyso'n uniongyrchol ar gyfer seroteipiau salmonela sydd o arwyddocâd i iechyd pobl mewn cysylltiad â marchnata a defnyddio wyau yn eu masgal i'w bwyta gan bobl.

Mae'r rheoliadau hyn yn rhoi nifer o ddarnau o gyfraith yr UE ar waith ac yn gorfod cydymffurfio â nhw. Mae'r diwygiadau drafft yn diweddar cyfeiriadau at ddau o reoliadau'r UE. Y rheoliadau hynny yw

1. Rheoliad (UE) rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu trefnidaeth gyffredin ar gyfer marchnadoedd mewn cynnyrch amaethyddol; a
2. Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 834/2007 ar gynhyrchu organig a labelu cynnyrch organig. Yn rheoliad 3(1), mae'r cyfeiriad a geir yn y diffiniad o 'Reoliad (UE) 2013' yn hen erbyn hyn ac mae angen ei newid iddo gynnwys y cyfeiriad cywir at 'Reoliad (UE) 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu trefnidaeth gyffredin ar gyfer marchnadoedd mewn cynnyrch amaethyddol'.

- **Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011**

Mae Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011 yn darparu ar gyfer gorfodi a chyflawni safonau marchnata'r UE y gellir eu cymhwyso'n uniongyrchol ynghylch cig dofednod gan gynnwys Rheoliad (UE) 2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu trefnidaeth gyffredin ar gyfer marchnadoedd mewn cynnyrch amaethyddol; Mae'r diwygiad drafft hwn yn cywiro camgymeriad yn y cyfeiriad at Reoliad 2013 sy'n ymddangos yn rheoliad 2(1).

- **Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013**

Mae'r newidiadau'n adlewyrchu'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud i ddeddfwriaeth Ewropeaidd berthnasol, yn benodol Rheoliad (EC) rhif 1333/2018 a Rheoliad (EC) rhif 1334/2008.

Mae Rheoliad (EC) rhif 1333/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn cysoni'r defnydd o ychwanegion bwyd mewn bwyd yn yr Undeb Ewropeaidd . Mae'r Rheoliadau'n sicrhau bod y farchnad fewnol yn gweithio'n effeithiol tra'n diogelu'r cwsmer ac iechyd pobl. Mae'r Rheoliad yn rhestru ychwanegion cymeradwy ynghyd â'r amodau ar gyfer eu defnyddio a'u labelu.

Mae Rheoliad (EC) rhif 1334/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn sefydlu trefn awdurdodi gyffredin ar gyfer ychwanegion bwyd, ensymau bwyd a chyflasynnau bwyd. Mae'r drefn yn hwyluso symud bwyd yn ddilyffethair tra'n gwarantu iechyd a lles defnyddwyr.

Bydd y newidiadau a gynigir yn sicrhau bod y gyfraith berthnasol yng Nghymru yn ystyried unrhyw newidiadau i'r rhestr o ychwanegion, cyflasynnau ac ensymau a ganiateir a'r drefn awdurdodi a wnaed ers cyflwyno rheoliadau ar lefel yr UE i helpu'r farchnad i weithio'n effeithiol a sicrhau bod y defnyddiwr yn parhau'n ddiogel.

- **Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017**

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi gofynion statudol ynghylch ansawdd dŵr a fwriadwyd ar gyfer ei yfed gan bobl ar waith mewn cysylltiad â chyflenwadau dŵr preifat.

Mae'r diwygiad i reoliad 6 yn ymwneud â hepgoriad yn y trosiad presennol o baragraff 3 Rhan C Atodiad II o gyfarwyddeb 98/83/EC ar ansawdd dŵr a fwriadwyd ar gyfer ei yfed gan bobl. Diwygir Rheoliad 6 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau risg a wneir gan awdurdod lleol o dan y rheoliad hwnnw ystyried canlyniadau'r rhaglenni monitro y gofynnir amdanynt o dan Erthygl 8 Cyfarwyddeb 2000/60/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu'r fframwaith ar gyfer gweithredu gan y Gymuned ym maes polisi dŵr.

Mae'r diwygiad yn Atodlen 4 yn disodli'r cyfeiriadau at ddarpariaethau yng nghyfarwyddeb 96/29/Euratom ac yn rhoi cyfeiriadau priodol yn eu lle yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 2013/59/Euratom. Cafodd Cyfarwyddeb 96/29/Euratom ei diddymu'n rhagolygol a rhoddwyd Cyfarwyddeb y Cyngor 2013/59/Euratom yn ei le, gan ddod i rym ar 6 Chwefror 2018. Mae angen diweddarau'r geiriad presennol yn Rheoliadau 2017 felly i adlewyrchu'r newid.

Ni fydd y diwygiadau yn arwain at unrhyw newid yn lefel yr amddiffyniad y mae deddfwriaeth ddomestig Cymru yn ei roi i iechyd pobl, nag i safonau uchel bwyd a phorthiant (gan gynnwys darparu gwybodaeth am fwyd a labeli bwyd). Ni fydd y newidiadau hyn yn golygu y bydd goblygiadau i fusnesau na diwydiant.

Amgaeir yr offeryn statudol drafft er hwylustod ichi mewn fformat sy'n cynnwys y newidiadau'n unig sy'n gysylltiedig â'r gofyn i gynnal ymgynghoriad. A fyddech cystal felly ag ystyried y newidiadau sy'n cael eu cynnig ac os oes gennych gwestiynau, holwch ni.

### **Sut i gysylltu â ni**

Os hoffech chi neu eich sefydliad gynnig sylw ar unrhyw rai o'r diwygiadau sy'n cael eu cynnig, cysylltwch â Thîm Bwyd Llywodraeth Cymru ym mlwch post Busnes yr Adran Fwyd [FoodDivisionalBusiness@gov.wales](mailto:FoodDivisionalBusiness@gov.wales) erbyn diwedd diwrnod gwaith 13 Chwefror 2019.

Yn gywir

David Lloyd –Thomas  
Pennaeth yr Uned Polisi a Strategaeth Bwyd

Adran Polisi Pysgodfeydd • Fisheries Policy  
Rhodfa Padarn  
Llanbadarn Fawr  
Aberystwyth  
SY23 3UR

Ffôn • Tel 0300 062 2184  
Ffacs • Fax 0300 062 2065  
FisheriesMailbox@wales.gsi.gov.uk